

CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 5ed Ebrill 2017 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Mrs W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr Mrs. E.M. Chard, Mrs. J. Hughes, A. R. James, Ms. J. McAlpine, S. Ratcliffe, Miss S. Roberts, Miss R. Siddall, a T. Thomas.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

61 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cyngorwyr A.J. Rutherford (Ymrwymiad Gwaith).

62. CYNLLUNIO GWLAD A THREF (GWEITHDREFN RHEOLI DATBLYGIAD) (CYMRU) – YMGYNGHORI CYN CYFLWYO CAIS: PARC DŴR AC ATYNIAD HAMDDEN ARFAETHEDIG, TIR I'R GORLLEWIN O RODFA'R GORLLEWIN, Y RHYL

Derbyniwyd yr ymgynghoriad cyn cyflwyno cais uchod (dosbarthwyd copi gyda'r Rhaglen) gan y datblygwr.

PENDERFYNWYD derbyn yr Hysbysiad.

63. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

Nodyn 2: Dywedodd/Ail-ddywedodd yr Aelodau canlynol sydd hefyd yn gwasanaethu ar Gyngor Sir Ddinbych eu bod, wrth gymryd penderfyniadau ar y ceisiadau, yn gwneud hynny ar sail yr wybodaeth a oedd ger eu bron nawr ac os oedd angen ystyried y ceisiadau yng Nghyngor Sir Ddinbych, y byddant yn edrych ar y ceisiadau o'r newydd yn seiliedig ar yr wybodaeth a fydd ar gael bryd hynny, ac oherwydd hynny efallai y byddant yn dod i benderfyniad gwahanol arnynt.

Y Cyngorydd: A.R. James Y Cyngorydd Mrs. W. Mullen James

CEISIADAU CYNLLUNIO

63.1 **LLEOLIAD Y SAFLE** George Hotel, 37 Queen Street, y Rhyl.

WARD: Bodfor

| | |
|------|--|
| | <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2017/0229</p> <p>Trosi lloriau uwch 2 fflat ollgynhwysol i ffurfio 4 fflat ollgynhwysol ac adeiladu grisiau allanol yn y cefn.</p> <p>Yr ymgeisydd yw Mr. L. Wright o'r un cyfeiriad.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p> |
| | |
| 63.2 | <p><u>LLEOLIAD Y SAFLE</u> 63 Ffordd Las, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Cefndy</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2017/0223</p> <p>Newid defnydd adeilad storfa oer i ddarparu gwasanaeth ceir, MOT a storfa ddiogel i gerbydau.</p> <p>Yr ymgeisydd yw Mr. J. Davies o WR Davies d/o Quest Design and Planning, Uned 7 Henry Close, Battlefield Enterprise Park, Amwythig.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad yn amodol ar gyfyngu oriau busnes i rhwng 8.00 a.m. a 8.00 p.m. i ddiogelu mwynderau preswyl eiddo cyffiniol yn unol â Pholisi RD1(vi) y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd.</p> |

64. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod:

Dyddiad: